# LLEU

Papur Newydd Dyffryn Nantlle

Pris 80c

Rhif 519 • Mehefin • 2020


y mis yma


Côrnarfon yn delio efo Corona • Tud 3
Colofn Hanes Robert Wyn • Tud 6
Ysgol Dyffryn Nantlle • Tud ôl


# DDOE, HEDDIW….A FORY



Atgofion Jean Roberts, Pant-y-Ffynnon, Nasareth am y faciwîs ddaeth i'r ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mam Jean sydd yn y llun, yn ei gwisg ffansi wrth ddathlu diwrnod VE yng Ngharnifal Nebo 75 mlynedd yn ôl. Mwy o'r hanes ar dudalen 13.

Cerdyn post ydi hwn o Idwal ap Ieuan Jones, yn ei ddillad hedfan. Peilot medrus iawn o Dalysarn oedd o, a laddwyd mewn damwain awyren yn 1937. Byddai'n rhoi cerdyn wedi ei lofnodi i'w deithwyr yn dilyn taith o amgylch eu hardal. Mae Cledwyn Jones, hefyd yn wreiddiol o Dalysarn ac aelod o Driawd y Coleg, yn adrodd hanes Idwal ar dudalen 10.





Diolch o waelod calon i'r holl weithwyr allweddol, busnesau lleol ac wrth gwrs y gwirfoddolwyr sydd ymhob pentref yn cefnogi y rhai mwyaf bregus ohonom.



Awen Roberts a Scwic y gath yn mynd am dro, yn unol â'r rheolau. Mae Awen yn sôn am ei phrofiad o fynd am dro yn amser y Covid ar dudalen 4.



# LLEU

## SWYDDOGION

CADEIRYDD
**Siwan Mair Thomas**

YSGRIFENNYDD
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog,
Penygroes • LL54 6NS

TRYSORYDD
**Carys Williams**
11 Ffordd Clynnog • Penygroes • LL54 6NP
01286 881413

TREFNYDD HYSBYSEBION
**Bethan Griffith**
Fron Dirion Uchaf • Cilgwyn • Carmel • LL54 7SE
info@beudybach.co.uk

LLEU DRWY'R POST
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog • Penygroes
LL54 6NS
01286 880521
e-bost hafodygan@aol.com

TREFNYDD DOSBARTHU
**Aled Roberts**
Rhyddros • Ffordd Clynnog • Penygroes
01286 881267

## PANEL GOLYGYDDOL

Cysyllter naill ai trwy e-bostio
**PapurBro.Lleu@googlemail.com**
neu
**Heulwen Jones**
4 Glan Aber • Llanllyfni
01286 880344
**Len Jones**
2 Glan yr Afon • Y Groeslon
01286 830576
**Eluned Rowlands**
Y Goeden Eirin • Dolydd
01286 830942
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog
Penygroes • LL54 6NS
01286 880521
**Siwan Mair Thomas**
Arfryn , Rhostryfan
01286 830851
Teipio • **Bethan Griffith**
Dylunio • **Charli Britton**



*Nid yw pwyllgor LLEU o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr. Cedwir yr hawl i gwtogi a/neu olygu llythyrau neu gyfraniadau eraill neu eu gwrthod yn gyfan gwbl.*


## DALIER SYLW

Dylai'r holl ddeunydd ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf 2020, gyrraedd y golygyddion erbyn **dydd Mercher, 17 Mehefin.**

## Rhoddion • gyda diolch!

**Di enw**
Cyfraniad tuag at gynnal a pharhad LLEU yn yr amser anodd hwn
£100.00

## DIOLCH YN FAWR

# PEN BLWYDDI

Penblwydd hapus
**Anni Wyn, Glanaber,**
Llanllyfni yn 4 oed oddi
wrth Mam, Dad,
Owain a Harri,
a'r teulu i gyd xx





Penblwydd Hapus arbennig iawn i **Gruff, Afallon, Nebo** sydd yn 18 oed ar 1 Mehefin 2020! Gobeithio cael dathlu efo chdi yn fuan. Cariad mawr oddi wrth Dylan, Beth, Mei a Elsi xxx

***I roi llun pen-blwydd o'ch plentyn yn LLEU, cysylltwch ag Alwena Davies ar 01286 882035. Mae'n rhaid derbyn y tâl o £5 gyda pob llun. Cofiwch gynnwys enw llawn a phentref y plentyn hefyd.***

## Gwybodaeth am y Coronafeirws ar wefan Cyngor Gwynedd

Gyda rheoliadau cenedlaethol Coronafeirws yn golygu newid i rai gwasanaethau, mae'n bwysicach nag erioed fod pobl yn cael gafael ar yr wybodaeth gywir am eu cyngor lleol ar adeg fel hyn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio er mwyn addasu tudalennau Covid-19 ar eu gwefan i wneud y siŵr fod yr wybodaeth ar gael mewn ffordd sydd fwyaf addas i drigolion y sir.

Yn gyntaf, mae clipiau sain mewn Cymraeg a Saesneg wedi cael ei ychwanegu ar dop rhai y prif dudalennau, mae rhain yn cynnwys 'datganiad y prif weithredwr' a gwybodaeth am 'wirfoddoli'.

Mae hyn ar gael ar gyfer y dudalen 'help i bobl a chymunedau' a 'newidiadau i wasanaethau Cyngor Gwynedd'.

Yn ogystal, mae modd agor fersiwn 'hawdd ei ddarllen' er mwyn egluro'r newidiadau i wasanaethau dros gyfnod yr argyfwng.

Ewch i www.gwynedd.llyw.cymru ar wefan Cyngor Gwynedd a chlicio ar y bocs piws ar dop y dudalen.




£12.98



£12.98

sainwales.com sain

-Cyfarwyddwyr Angladdau-
Roberts & Owen
-Cerbydfeistri-
-Gwaith Coffaol-

• Cynlluniau talu ymlaen llaw •
• Yswiriant beddfeini cynhwysfawr •
• Gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw beddfeini •

Birmingham House
Stryd Fawr
Pen-y-groes
LL54 6PL
01286 881280

Yr unig gyfarwyddwyr angladdau annibynnol a Chymraeg ym Mhen-y-groes
*Sefydlwyd ym 1990*

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



# Holi'r aelodau seneddol

## CYFARFOD AR-LEIN

### HYWEL WILLIAMS AS & SIÂN GWENLLIAN AS

Mae'n amlwg nad oes modd i **Siân Gwenllian AS** a **Hywel Williams AS** gynnal cymorthfeydd wyneb-i-wyneb am y tro, felly i ymateb i'r sefyllfa ddi-gynsail hon, mae Plaid Cymru Arfon ar flaen y gad yn trefnu cyfarfod cyhoeddus rhithiol.
Hefyd yn bresennol i ateb cwestiynau etholwyr 'roedd y Meddyg Teulu lleol, **Dr Catrin Ellis Williams**.
Dyma gyfle i etholwyr Arfon holi eu cynrychiolwyr ynglŷn â'r pethau sydd yn eich pryderu yng nghyfnod heriol Covid-19.

# Côrnarfon




Er mwyn dangos gwerthfawrogiad i'r gweithwyr iechyd a gofal sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol yn ystod cyfnod Covid19, penderfynodd pwyllgor Côrnarfon roi rhodd fechan o goffrau'r côr. Aed i gysylltiad â chwmni lleol sydd wedi ei leoli yn y Bontnewydd, sef 'Bare Natural'. Cytunodd y cwmni i ddarparu tuniau bach o eli croen sych lafant a mêl, a hynny am bris rhesymol iawn gan ei fod yn mynd at achos mor dda.
Dosbarthwyd y tuniau o amgylch ardal Arfon, a rhoddwyd gwên ar lawer o wynebau mewn meddygfeydd, ysbytai a chartrefi gofal. Mae geiriau hyfryd o ddiolch wedi cyrraedd y côr. Mae sawl un wedi sôn am ba mor hyfryd yw arogl yr eli, a chymaint y mae arwyddion bach o werthfawrogiad yn eu helpu drwy'r cyfnod yma.
Mae hi'n gyfnod rhyfedd iawn i Gôrnarfon, fel i gorau a chymdeithasu ar hyd a lled y wlad. Roedden ni wedi gobeithio y bydden ni wrthi'n brysur erbyn hyn, yn paratoi i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn lle hynny, rydan ni'n dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg i gymdeithasu, ac yn meddwl am bob un o'n haelodau sydd ar y rheng flaen yn cynnal gwasanaethau allweddol. Diolch o waelod calon iddyn nhw.

# Lansiad Digidol DyffrynNantlle360

Dechrau'r flwyddyn, trafodwyd sawl syniad am lansiad swyddogol DyffrynNantlle360 gyda'r gymuned leol, a phenderfynwyd mai yn y cyfnod yma y byddai hyn yn digwydd. Yn amlwg, nid yw hi'n bosib symud ymlaen gyda'r lansiad gwreiddiol ar hyn o bryd, ond, fel sawl peth arall, da ni wedi addasu ac am lansio'n ddigidol yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin!
O ddydd Llun y 1af ymlaen, bydd sawl stori aml-gyfrwng yn cael eu rhyddhau ar DyffrynNantlle360, gydag uchafbwynt yr wythnos y cyrraedd ar ddydd Gwener, 5 Mehefin. Ar y 5ed, bydd diwrnod llawn digwyddiadau ar DyffrynNantlle360, gan gynnwys pethau fel gwersi celf, cyflwyniad hanesyddol, a set byw o gerddoriaeth. Bydd y rhain yn cael eu rhyddhau ar y wefan, ac ar ein cyfryngau cymdeithasol. Gwyliwch allan am amserlen lawn o'r diwrnod!

Gwynedd a Môn
age Cymru

Y CARTREF, BONTNEWYDD

www.acgm.co.uk
info@acgm.co.uk 01286 677 711









**A YDYCH YN CHWILIO AM GYFLEOEDD I WIRFODDOLI YN LLEOL?**

**Amcangyfrifir bod 500,000 o bobl yng Nghymru eisoes yn gwirfoddoli'n ffurfiol gyda sefydliadau, a bod tua 1.8 miliwn o bobl yn gwirfoddoli os ydym yn cynnwys gwirfoddoli anffurfiol. Felly, beth am ymuno â nhw?**

**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n cynorthwyo i ddarparu ein gwasanaethau yn lleol gan gynnwys cynorthwyo yng Nghaffi'r Cartref Bontnewydd, gyrru'r bws mini, gyda dyletswyddau gweinyddol yn y swyddfa, neu gynorthwyo yn un o siopau Age Cymru Gwynedd a Môn.**

**Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â ni ar 01286 677 711 neu aled@acgm.co.uk am ragor o wybodaeth!**

*Mae Age Cymru Gwynedd & Môn yn elusen leol gofrestredig (rhif cofrestredig 1143587). Rydym yn gweithredu'n annibynnol ac yn hollol ddibynnol ar godi arian ein hunain. A* ***wyddoch y caiff traean o'r gwasanaethau a ddarparwn eu hariannu drwy'r rhoddion hael a*** *wneir gan y cyhoedd? Os hoffech roi rhodd yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda!*

# mynd am dro

'Ro'n i yn meddwl mai'r peth o'n i yn golli fwyaf yn y busnas cloi yma oedd mynd am banad a theisen i Fron Goch, o, a mynd i Home Bargains i gael fy nghoffi rhew. Gan mod i dros 70 dwi heb fod yn unlle ers dros ddau fis, dibynnu ar y plant i wneud fy siopa a nôl y 'Daily Post'. Ond mi gai'i fynd am dro ar hyd y lôn yn y pentra rhag i mi fynd yn hollol ddi-symyd.
Munud y rho'i fy nghot amdana i a deud wrth Scwic (y gath) "dw'n mynd am dro" mae o drwy'r drws o fy mlaen i. Y fo sy'n penderfynu i ba gyfeiriad yr awn i.
Neis iawn cael cwmpeini medda chi, ond tydi ei fynd am dro fo ddim run fath a fy mynd am dro fi. Rhaid iddo fo gael ogleuo pob teiar car sydd wedi ei barcio, ac mae'r rhan fwyaf wedi eu parcio ar y funud, a phicio i mewn drwy giât bob tŷ - dim ond checio medda fo. Os dwi yn mynd o'i olwg o mae o yn mewian yn dorcalonnus (dyna sut cafodd o ei enw) nes mae o wedi cyrraedd ata'i. Mi fasach chi yn meddwl y basa fo yn falch mod i wedi aros amdano ond na mae o yn mynd heibio efo edrychiad syn dweud "sut wyt ti yn meiddio mynd o mlaen i".
Mae o yn ffan o Boris dwi'n siŵr, mae o yn credu yn gryf mewn "social distancing". Os daw rhywun i'n cyfarfod mae o i ben y wal ac efallai bod rhaid mynd drosodd i'r cae nesa ac astudio'r ceffylau, wydda nhw ddim beth i wneud ohono fo, ac mae'r gwyddau yn beryg bywyd felly mi ddaw yn ei ôl yn reit sydyn.
Mae o yn symud dipyn cynt ar ei ffordd adra, mae o yn gwybod bydd yna Dreamies yn ei bowlen fwyd.
Pa mor wirion mae'r cloi yma yn fy ngwneud i. Dwi'n siŵr fod pobol y pentra yn meddwl mod i wedi ei cholli hi go iawn. Y ddynas yna sy'n cerdded yn araf ac yn siarad efo hi ei hun (efo Scwic) a'r gath yna sy'n mewian efo fo ei hun y tu ôl iddi.

*Awen Roberts*

# Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y lockdown."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: **mari.emlyn@btinternet.com**.
Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Gorffennaf, 2020**.

# Pawb yn Elwa

***Neges bersonol gan Rob Evans (Cymdeithas Edward Llwyd)***

Wel 'dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu â'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r poen yn cynyddu pob diwrnod - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus mod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn, efo bob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.
Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddyn gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wlân cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.
Maen nhw'n dweud y siopau trin gwallt fydd yr olaf i ail-agor a chlywais rywun yn sôn am rywbryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o 'ngof ymhell cyn hynny!
Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd. Roedd yr adar yn brysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "'Sbïa ar y pen yna,' dywedodd yr un 'bydden ni ddim llawer o amser yn adeiladu nyth yn fanna!' 'Ti'n iawn' meddai'r llall 'mae digon o ddefnydd yna i greu nyth yn ddigon mawr i chwech o blant!'
Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau yn trio fy ngorau i ddangos dim diddordeb o gwbl; ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Ni fyddaf yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond mi oedd un ffordd byddaf yn gallu helpu, a fy helpu finnau ar yr un pryd.
Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i thycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.
A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus; bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond, erbyn mis Gorffennaf, mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.
Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu fi edrychwch ar Twitter achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar Twitter ac yn twîtio'r stori i'r holl fyd.
Cadwch yn saff!



# Y Beiciwr Bodlon

Mae'r gwynt yn chwiban yn fy nghlust
a gwibio heibio y mae'r pyst.
Rhed dafnau chwys i lawr fy moch,
mae 'nghap yn gam, mae 'ngwep yn goch.
Dwi'n hidio botwm am y straen -
daw hedd i mi wrth bedlo 'mlaen
a gwibio dros y graean bras
sy' rhwng Graianog a Phantglas.
Cyn hir daw egwyl wrth rhyw giât
i daro llygad dros y stat,
rhyw egwyl fer, fel ar ben talar,
i diwnio 'nghlust i gân yr adar;
gwylio'r cymylau'n hofran fry,
gwrando'r distawrwydd ar bob tu,
ac yntau'r gwynt yn lleisio'i gŵyn
a'i aria brudd yn erwau'r brwyn.

Rwy'n diolch ganwaith am fy meic
er bod fy nghoesau'n bygwth streic.
A minnau'n awr yn tynnu 'mlaen –
mae'r pleser yn gorbwyso'r straen
ac, fel daw'r awen mewn ymryson,
mi wn daw lles o'r pedlo cyson.
Daw rhyddid i bensiynwr tlawd
wrth deimlo'r llyw rhwng bys a bawd,
synhwyro'r tensiwn yn y tsiaen
wrth newid gêr - yn ôl, ymlaen -
a linc - wrth linc - yn tynnu - tynnu
pan fyddo'r march a'i drwyn i fyny,
yr hen gyhyrau'n styfnig, styfnig
a'r fegin yn gorweithio'n lloerig!
Ond, gyda hyn, daw goriwaered
a diwedd ar y pedlo caled.
Bydd bysedd ysgafn ar y llyw
a'r gwynt yn suo yn fy nghlyw.
Mi gaf ymlacio'n llwyr yn awr -
mae trwyn y ceffyl ar i lawr,
a phig fy nghap yn isel, isel,
cans gwybed mân, ar noson dawel,
all daro'n ddall hen feiciwr druan
a'i hyrddio'n lletchwith hyd y graean . . .!
Ond O! mae rhyddid rhwng dwy olwyn
lle caf ddychmygu'r pyst yn dirwyn
yn stribed wibiog ar bob tu . . .
A hyn yw byw i'r beiciwr hy'.
Hen bedlwr balch ar ffordd y wlad
Fel marchog dewr ar faes y gad.
*Ifor Baines*

PANT DU
TŶ BWYTA • BAR
Cadwch yn saff.
Edrych ymlaen i'ch gweld
yn y dyfodol agos.
WWW.PANTDU.CO.UK
01286 881819
PENYGROES | LL54 6HE



Llun Mewn Ffrâm
Meic Roberts,
35 Stryd yr Wyddfa,
Penygroes.
01286 882056
Gwasanaeth
Fframio
a chrefftau lleol
Oriel Llun Mewn Ffrâm

• Stôfs yn llosgi glo a choed
• Cyflenwi a leinio simdde
• Simdde wedi ei hinsiwleiddio
Galwch i weld ein ystafell arddangos sy'n cynnwys amrywiaeth o stôfs gan:
BURLEY
TOWN & COUNTRY FIRES
FIRELINE
PUREVISION
ACR STOVES
GWASANAETH
Stôf a Ffliw
1 BANC Y CEI | FFORDD BRYNCELYN | TALYSARN | LL54 6AB
(01286) 880 707 / 07831 159045 / Info@stoveandflueservices.co.uk
www.stoveandflueservices.co.uk

CYSYLLTWCH HEDDIW I DREFNU PENWYTHNOS NEU WYLIAU GYDA FFRINDIAU A THEULU.
GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED YN CYNNWYS OFFER A PHECYNNAU ARLWYO AR GAEL.
CANOLFAN AWYR AGORED RHYD DDU OUTDOOR CENTRE
WWW.CANOLFAN-RHYD-DDU.CYMRU

Y BANC
SIOP • DELI • CHWARAE
Ar agor Llun - Sadwrn, croeso cynnes i bawb.
Anrhegion, crefftau, lle chwarae meddal i blant a danteithion blasus.
Ydych chi'n chwilio am ofod i werthu eich cynnyrch ar ddechrau blwyddyn newydd? Gallwn ni eich helpu – cysylltwch heddiw i weld sut gallwn eich helpu.
SWYDDFEYDD AC UNED FUSNES AR OSOD
Swyddfa hwylus ar osod ar Heol y Dŵr.
Swyddfa ac uned waith ar osod ar y Stad Ddiwydiannol.
Rhent am ddim am 2 fis i fusnesau newydd!
Telerau rhesymol iawn. Swyddfa mewn lleoliad delfrydol.
ANTUR NANTLLE CYF
Swyddfa 8, Tŷ Iorwerth, 39 Heol y Dŵr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6LW
post@anturnantlle.com // 01286 882688 // www.anturnantlle.com

# Colofn Hanes

Robert Wyn




Un o'r atgofion cyntaf sydd gen i yw cerdded efo fy nhaid i Siop Ucha'r Bont, lle roedd Miss Blodwen Roberts yn estyn croeso twymgalon i bob un o'i chwsmeriaid. Gwraig radlon ddiymhongar a oedd bob amser yn barod ei chymwynas. Byddai'r siop hefyd yn gwasanaethu'r pentref fel man cyfarfod i'r trigolion, a byddai cwsmeriaid yn oedi am ysbaid hir y tu allan er mwyn rhoi'r byd yn ei le.

Mae'n debyg bod pob darllenydd yn adnabod lleoliad y siop, sef rhif 8 Pentreuchaf, a chiwiau traffig diderfyn drwy bentre'r Bont, yn galluogi pob gyrrwr i adnabod pob carreg o'r teras hynafol o dai sydd yn ymylu ochr chwith y ffordd fawr wrth deithio o gyfeiriad Caernarfon ac yn cyrraedd bron at adeilad y Cartref.

Roeddwn yn ffodus iawn o dderbyn y llun uchod gan fy nghyfaill, Mr Goronwy Morris, sydd yn byw yn ardal yr Wyddgrug, ac sydd yn fab i chwaer Miss Blodwen. Yn y llun gwelir y siop oddeutu'r flwyddyn 1931 gyda Laura Roberts (Williams gynt) a chwaer Ceridwen, mam y ddau blentyn ar y chwith, sef Lizzie Jane Roberts (mam Goronwy) nesa ati hi ac yna Jane Roberts (chwaer yng nghyfraith Laura o Gaeathro) ac yna Ceridwen Roberts (ei nain) yn dal y babi bach, sef Brynley Francis Roberts a ddaeth yn bennaeth ar y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a'i frawd Alun sydd yn sefyll o flaen y ffenestr. Pan yn blentyn, byddai Goronwy yn treulio tipyn o amser yn y Bontnewydd yn ymweld â'i nain.

Yn ystod y tridegau, Ceridwen Roberts oedd yn rhedeg y busnes, a dyma sut y disgrifiodd Helen Royle Edwards yr hen wraig mewn ysgrif ddiddorol a oedd yn destun yn Eisteddfod y Bontnewydd yn ystod y saithdegau: *Yn Rhif 8 roedd y Siop. Byddai Mrs Ceridwen Roberts bob amser lond ei chroen, gyda gwện fawr wrth bwyso dros y cownter. Sôn am Siop Lewis's, roedd siop Mrs Roberts yn llawnach o lawer yn fy meddwl i. Os oeddech eisiau rhywbeth, gallech fentro y byddai gan Mrs Roberts, neu 'mi câi ef i chwi.'* Dyna wrth gwrs oedd hanfod y gymdeithas bryd hynny, y cymwynasu a'r parodrwydd i helpu ei gilydd pan fyddai angen, a dyna'n union sy'n digwydd heddiw, yn ysod y cyfnod cythryblus hwn, o dan arweiniad cadarn y Cynghorydd Peter Garlick.

Bu'r siop yn nwylo'r teulu Roberts tan ddechrau'r chwedegau, gyda Miss Blodwen Roberts yn rhedeg y busnes erbyn hynny. Siop barlwr eithaf cyfyng oedd yr adeilad, ac yno byddai taid yn mynd i brynu baco, ac yn manteisio ar y cyfle i gymdeithasu. Byddai poteli gwag bob amser o flaen y siop a phobl yn eu dychwelyd er mwyn cael ceiniog am y botel. Cofiaf yn arbennig siocled gan y cwmni *Fry's* a werthwyd yno bryd hynny, a hwnnw'n dwyn yr enw *'Five Boys'.* Roedd geiriau mawr yn y Saesneg ar bob rhan o'r siocled, sef *'Desperation, Pacification, Expectation, Acclamation a Realisation'.* Yn ogystal â hynny, roedd pum llun o'r bachgen ar y papur cludo, gyda'r olaf yn dangos y bachgen yn llefain, a hynny oherwydd ei fod wedi bwyta'r siocled i gyd! Mae'n rhyfedd sut mae rhywun yn cofio manylion fel hyn a phob tro y byddaf yn meddwl am Miss Blodwen Roberts, y siocled arbennig hwnnw ddaw i'r cof.

Mae'n ddiddorol hefyd olrhain sut ddaeth y teulu i fyw i bentref y Bont. Perchennog cyntaf y siop oedd Elizabeth Edwards o Harlech, a briododd chwarelwr lleol sef, John Williams ac, erbyn 1883, roeddent wedi ymgartrefu yn y Bontnewydd. John ac Elizabeth oedd rhieni Ceridwen, a phriododd hithau chwarelwr o'r enw John Roberts, ac yntau'n enedigol o Libanus Teras, Lon-groes. Ganwyd iddynt bedwar o blant, sef Blodwen, Gwenfron, Meredydd ac Elizabeth Jane. Bu'r siop yn nwylo'r teulu am dros dri chwarter canrif ac roedd y teulu'n uchel iawn eu parch ym mhentre'r Bont.




# NI a NHW

Siw Jones




'Helo. Sut ydach chi, Siw bach?' holodd Enfys Rowlands. 'Dwi ddim wedi'ch gweld chi ers tro byd. Ron i'n gobeithio'ch gweld chi ryw ben. Dwi isio diolch i chi am eich colofn yn Lleu bob mis. Mi wn bod rhai yn deud mai rwdl sydd ganddoch chi gan amla, ond mi fydda i'n meddwl bod yna elfen o wirionedd ym mhob dim ydach chi'n sgwennu.'
'Diolch Enfys,' meddwn inna. 'Chydig iawn sy'n diolch, cofiwch.'
Toeddwn inna ddim wedi gweld Enfys ers tro chwaith. Yn capal fydda i'n i gweld hi. Fel y gwyddoch, Efengylwraig ydi Enfys.
'Ia,' medda hi wedyn, 'Ron i'n falch o'ch gweld chi'n cynnwys adnod o'r Beibl yn eich colofn mis dwaetha. O ba lyfr hefyd dudwch?'
'Llyfr y proffwyd Eseia. Eseia 26, adnod 20.'
'Ia debyg iawn. Ydach chi'n ei chofio?'
'Ydw. 'Ewch i'ch ystafell, caewch y drws, ac ymguddiwch am ennyd nes i'r llid gilio."
'Dew! Mae gennych chi go da! Ystyriwch mewn difri – mae pawb yn meddwl mai rhywbeth newydd dieithr ydi haint a phla, y Covid-19 yma. Choelies i fawr!'
'Rydach chi'n iawn,' meddwn.
'Ia. Meddyliwch am y Pla Du a ddigwyddodd rhwng 1347 a 1350, a'r Pla Mawr yn 1665. Y gred pryd hynny oedd mai barn Duw ydoedd. Heddiw prin iawn yw'r rhai hynny sy'n credu yn Nuw. Ond, er gwaethaf ein rhodres, rydym yr un mor ddiamddiffyn ag oedd ein cyndeidiau. A dyma ni, wedi glanio ar y lleuad a thu hwnt, ond heb feistroli ein libart bach ein hunain.'
Fedrwn i ond cytuno.
'A wyddoch chi be – mae pobol yn cwyno bod eu gwalltia'n tyfu, ac ewinedd eu traed yn tyfu i'r byw, eu hearing aid wedi torri a'u dannedd angen sylw. Chlywais i'r un enaid yn cwyno eu bod nhw'n colli'r capel a'r moddion gras.'
'Na. Chlywais inna neb yn cwyno am hynny chwaith.'




'Tydi dyn ddim wedi edrych ar ôl iechyd y blaned o gwbl. Dim ond mynd, mynd a mynd.'
'A gweld chwithdod rŵan.'
'Ia. Ond y cysur sydd yna i ni yw bod yna lai o fynd, ac o'r herwydd llai o allyriadau - llai o lygredd. Mae natur yn cael llonydd, ac mae'n ffynnu. Ydach chi wedi gweld y llwyni eithin lenni? Maen nhw'n werth u gweld!'
'Ydach chi'n cerdded am dro bob dydd?' holais.
'Ydw. A dwi'n gwirioni gweld natur ar ei orau.'
'Ar hyd y lôn, ynteu ar hyd y llwybrau fyddwch chi'n mynd?'
'Ar hyd y llwybrau gan amla. Mae'n bwysig gwneud hynny er mwyn eu cadw nhw'n gorad. A dwi wrth fy modd bod arwydd Llwybr y Pererin wedi'i osod ar y llwybr sy'n arwain o fama i Eglwys Sant Beuno yng Nghlynnog Fawr, ac sy'n mynd ymlaen i Enlli.'
Tydi hi'n un dda dudwch. Ron i'n teimlo'n well ar ôl cael sgwrs hefo hi. Ydi, mae Enfys yn bererin go arbennig, a diolchgar…

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNOD HUNANARLWYO"




MODURON GP MOTORS
TRWSIO CEIR • MOT dosb. 1,4 a 7
GWASANAETH DIAGNOSTIG • GWASANAETH SYSTEM DYMHERU ac AIL-LENWI
TEIARS • CYFUNIONI 4 OLWYN GYDA LASER • GLANHAU a SBRIWSIO
**Uned 4 • Stad Ddiwydiannol • Penygroes**
**Caernarfon • Gwynedd • LL54 7BD**
MOT
**Gavin Parry**
**07747 560892**

Cefnogwch Fusnes Lleol Cymreig
JOHN HUGHES A'I FAB
Masnachwyr Glo Carmel
**01286 882 160**
Dewis eang o Lo o'r ansawdd gorau, Logiau a Phricia



Yr Iard Lo • Carmel
ebost • johnhughescyf@gmail.com

*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*
Ewyllysiau Cymraeg gan
Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)
Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com
(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# cadw’n brysur!



Gwirfoddoli







Jaiden, Macey a Reo gyda’r planhigion ma nhw yn dyfu adref.




Gwern Elis a Leusa Grug, Llandwrog ar ôl bod yn plannu basgedi a chreu arwydd yng ngheg stad Maes y Llan








Lleucu a Hywel, Ysgol Bro Lleu



Siop Lyfrau Rhostryfan




Diolch o Rostryfan



# Idwal ap Ieuan Jones (1906-1937) gan Cledwyn Jones, Bangor

**Dyma'r neges a dderbyniodd trigolion Talysarn ym 1937 pan fu farw Idwal mewn damwain yn Doncaster.**

*'On 29th May 1937, this aircraft crashed on the edge of Doncaster airfield while making a turn to land during Empire Air Day. Four people were killed including the pilot Mr Idwal ap Ieuan Jones. The Aircraft was Airspeed Courier G-ACSZ which was operating short air experience on the day around the Doncaster area…'*

31 mlwydd oed oedd Idwal pan laddwyd ef. Rwy'n cofio diwrnod yr angladd yn dda. Roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Penygroes a, chwarae teg i'r Prifathro Dr J R Morgan, cefais ganiatâd i sefyll y prynhawn hwnnw wrth wal y ffordd fawr, tra roedd yr hers yn mynd heibio yn araf oherwydd y dorf oedd yn dilyn i wrando'r gwasanaeth ar lan y bedd. Erys yr olygfa yn fy nghof am byth.

Yn y dyddiau cynnar hynny ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yr oedd hedfan yn datblygu, yn arbennig yn Lloegr, gyda mwy a mwy o awyrennau anturus yn hedfan eu hawyrenwyr i ffurfio'r Alan Cobham Flying Circus. Yr oedd Idwal yn un o'r peilotiaid cynharaf i ymuno â'r 'Syrcas'. Ef oedd y prif beilot erobatic, a byddai'n gwneud campau yn ei awyren a achosai i'r gwylwyr sefyll yn gegrwth. Prin iawn oedd llwybrau glanio i'r awyrennau cynnar hyn, a byddai'r peilotiaid yn chwilio am gae o faint a gwastad i sicrhau diogelwch.

Yn 1933 roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Talysarn. Mr Vaughan Jones oedd y Prifathro ac athro gwych y pumed dosbarth oedd Mr John Haydn Jones.

Un prynhawn, a ninnau'n eistedd yn dawel wrth ein desgiau yn ysgrifennu, clywsom sŵn dieithr iawn. Anghofiasom bopeth am ysgrifennu. Daeth y sŵn yn nes ac yn nes, fel y gylfinir hwnnw a anfarwolwyd gan R Williams Parry ac, o'r diwedd, yn hofran dros yr ysgol gwelsom am y tro cyntaf erioed - EROPLEN! Roedd yr awyren yn hedfan yn eithriadol isel a gwelem y peilot yn eistedd yn y cockpit yn chwifio ei ddwylo ac yn perfformio loops a rolls a loop the loop a champau eraill. Yr oeddem ni'r bechgyn wedi gwirioni ac am rai wythnosau byddem yn dynwared Idwal yn y cowt, gyda'n breichiau ar led.

Ganed Idwal mewn tŷ chwarelwr cyffredin yng Nghoetmor, sef rhesiad o dai hanner ffordd rhwng Talysarn a Phenygroes. Chwarelwr oedd ei dad, Ifan Garn, Rwyf yn cofio'n iawn ei fod yn awdur llyfr sylweddol ar hanes chwareli Dyffryn Nantlle. Bu farw ei wraig ym 1906 ac ymhen rhai blynyddoedd ail-briododd Ifan a ganwyd tair merch i'w ail wraig, a'r drydedd ferch oedd Annie. Yr oeddwn yn hoff iawn o Annie a bu'r ddau ohonom yn yr un dosbarth yn Ysgol Gynradd Talysarn a'r Ysgol Ramadeg ym Mhenygroes yn ddiweddarach. Hi oedd y ferch fwyaf dawnus y deuthum ar ei thraws erioed. Yn Ysgol Talysarn y pryd hynny, fel ymhob Ysgol Gynradd arall, byddai rhyw hanner dwsin o blant y pumed dosbarth yn cael eu darparu i eistedd yr 11plus gan y CWB ar gyfer mynediad i'r Ysgol Ramadeg ym Mhenygroes. O safbwynt deallusrwydd roedd Annie filltiroedd ar y blaen i'r gweddill ohonom a dyna a ddangoswyd gan ganlyniadau'r arholiad. Yn bwysicach i ni, ar wahân i'w gallu, roedd hi yn hanner chwaer i'r arloeswr Idwal!

Crwydrai Syrcas Cobham i bob cwr o'r wlad, gan gynnwys Cymru. Roedd Idwal yn rhan bwysig o'r 'syrcas', a oedd wedi dewis Penrhos ger Pwllheli i ddangos eu campau awyrennol ac i roddi cyfle i aelodau o'r dyrfa a fyddai'n eu gwylio i fynd am drip yn yr awyren – am dâl wrth gwrs!


Un o ffrindiau Idwal oedd Richard Jones, Cloth Hall - Dic Cloth Hall i ni'r trigolion - un o'r dynion mwyaf di-ofn a welodd neb erioed. Roedd hefyd yn beiriannwr ardderchog. Gwelais ef un tro gyda gorchudd dros ei wyneb, yn tynnu motobeic yn ddarnau, ac yna eu gosod yn ôl yn ur un modd. Ef oedd yr unig un a nofiodd ar draws llyn Gloddfa Glai, gyda dyfnder o rai cannoedd o droedfeddi. I ganfod pa mor ddi-ofn ydoedd, heriwyd ef gan ei gyfaill, Idwal, i hedfan gydag ef tra roedd Idwal yn perfformio'r campau hynny yr oedd mor gyfarwydd â hwy. Derbyniodd Dic y sialens ac, yn ôl y rhai oedd yn bresennol, perfformiodd Idwal bob camp - ond heb achosi unrhyw salwch cyfog i Dic, er mawr syndod i'r peilot. Dic oedd yr arwr y diwrnod hwnnw!




*Un o'i gampau oedd hedfan yn isel a chipio darn o frethyn gyda blaen ei adain - o fewn rhyw droedfedd o'r llawr.*

Roedd Talysarn ar ddechrau'r tridegau'r ganrif ddiwethaf yn bentref hynod o brysur. Ond roedd nos Sadwrn yn noson i ymlacio ar ôl blinder yr wythnos a byddai'r chwarelwyr ifainc yn troi allan y neu siwt ddydd Sul a Brylcream a dal bws Mrs Ifans i Gaernarfon am ryw beint (neu ddau neu dri), i chwilio am fodan neu ffeit gyda'r Cofis. Y bws olaf yn ôl oedd naw o'r gloch a byddai hwn dan ei sang. Arhosai wrth ganolfan y pentref, sef siop chips Sadrach Ifas. Byddai'r siop yn llawn i'r ymylon. Yng nghanol y miri yma y byddai Idwal yn mwynhau ei hun, er na fyddai ef byth yn mynd ar y bws - yr oedd ganddo ef ei gar ei hun a dillad Lloegr. Fel perchennog car, byddai Idwal yn llenwi'r car a mynd â'r dynion simsan adref, er mawr ddiolch gan eu gwragedd. Roedd Idwal yn gyfaill i ni'r plant hefyd a byddem, hyd yn oed ar nos Sadwrn, yn cael pas yn y car. Do, rhoddodd Idwal lawer o fwynhad i drigolion Talysarn gyda'i eroplen a'i bersonoliaeth hynaws.

Oni ddylem ni fel trigolion a chyn-drigolion yr hen bentref ddangos ein gwerthfawrogiad trwy osod cofeb iddo yn ei hen ysgol?

# BYD BACH Y SULGWYN A'R FEIRWS

## *Profiad Karen Owen yn recordio'r stori*

**Mae'r Sulgwyn newydd fod (Mai 31) - yr adeg o'r flwyddyn pryd y mae Cristnogion ar hyd a lled y byd yn dathlu diwedd y 'lockdown' fu yn Jerwsalem tua'r flwyddyn 33.**

Yn syth wedi croeshoelio Iesu Grist, y peth cyntaf y mae'r 11 disgybl sydd ar ôl (mae Jwdas Iscariot wedi marw) yn ei wneud, ydi cloi drysau'r oruwch ystafell, a chuddio. Mae ganddyn nhw ofn cael eu harestio, eu curo neu eu lladd oherwydd eu cysylltiad efo Iesu Grist.

Trwy'r dydd, bob dydd, maen nhw'n aros yn yr ystafell lle digwyddodd cymaint o bethau eiconig ar Nos Iau Cablyd, y tro diwethaf yr oedd Iesu yn eu plith a phawb efo'i gilydd. Y noson honno y golchodd eu harweinydd draed bob un ohonyn nhw, a gorchymyn mai dyna sut y dylsan nhwthau drin ei gilydd. Yno hefyd y rhannodd y bara a bendithio'r gwin a gweini Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf. Ac ar ben hynny, fe gyhoeddodd wrthyn nhw wirioneddau plaen y bywyd hwn, sef bod un o'i ffrindiau (Jwdas) eisoes wedi'i werthu i'r awdurdodau ac ar fin ei fradychu efo cusan; a bod Pedr (y mwya byrbwyll a siaradus ohonyn nhw) yn mynd i wadu ei fod hyd yn oed yn ei nabod.

Ar ôl chwech wythnos o 'lockdown' - hel meddyliau, ail-fyw, edliw, difaru a dadlau - mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd. Trwy'r drysau clöedig, i ganol y criw, mae yna bersbectif newydd yn ffurfio wrth i'r Ysbryd Glân wneud i bawb yn ninas fetropolitaidd Jerwsalem ddeall digwyddiadau'r Pasg 'yn ei iaith ei hun'.

Ar ôl y cloi mawr, does dim byd cweit yr un fath byth eto. Mae hanes bywyd Iesu Grist yn cael ei ddweud mewn nifer fawr o ieithoedd gwahanol, ac yn ymledu trwy'r byd - fel feirws.

Rhwydwaith o ieithoedd

Mae hanes yr Ysbryd Glân yn dod i mewn i'r oruwch ystafell i'w gael yn ail bennod llyfr Actau yn y Testament Newydd (adnodau 1-13), ac wrth gofnodi hanes y Sulgwyn (neu'r Pentecost) gyda lleisiau pobol go iawn, mi benderfynais drio gweld hefyd pa mor fach ydi'r byd.

Faint o ieithoedd yr oedd hi'n bosib eu cynnwys yn y gwaith? A faint o bobol o'n i'n eu nabod sy'n siarad ieithoedd tramor?

Dyna ddechrau wrth fy nhraed - Mererid Hopwood, sy'n rhugl yn Sbaeneg; Ceri Anwen James sy'n athrawes Almaeneg yn Ysgol Bro Edern, Caerdydd; fy ffrind coleg, Luned Roberts o Langynnwr ger Caerfyrddin, a raddiodd mewn Ffrangeg; Eluned Haf Wigley, o'r Hen Efail, Ffrwd Cae Du, gynt, sy'n siaradwraig Eidaleg ddeheuig; a Sioned Puw Rowlands sydd, ar wahân i fod yn briod â Groegwr (Manos), yn medru'r iaith honno.

Penderfynais ofyn i Guto Harri, Pabydd o argyhoeddiad, i recordio'r adnodau yn Gymraeg; a Leanne Wood, cyn-arweinydd Plaid Cymru, i ddarllen yn Saesneg ac yn acen gynnes y Rhondda. A dyna gofio am John Morgan, o Gastell-newydd Emlyn yn wreiddiol ond yn arweinudd y bywyd Cymraeg yn Fienna, Awstria, ers y 1970au, ac yn un a fu'n ffrind da i mi pan dreuliais chwe mis yn byw yn y ddinas yn 2014-15.

Daeth rhai cyfeillion eraill i'r meddwl - Iestyn Garlick a'i afael ar yr iaith Iseldireg; Tim Saunders a'r Gernyweg; Rhys Trimble sydd wedi meistroli Lladin yn ddiweddar; Elin Haf Gruffydd Jones sydd, ymysg ei myrdd o ieithoedd, yn siarad Catalaneg; Begotxu Olaizola a fu'n gofalu amdana'i ac Eurig Salisbury tra buon ni i gynhadledd i feirdd byrfyfyr y byd yng Ngwlad y Basg rai blynyddoedd yn ôl; Alwen Green, un o hoelion wyth y gymuned Gymraeg yn Esquel, Patagonia; heb anghofio Aneurin Karadog, y bardd sydd bellach yn byw yng Nghwm Gwendraeth ond sy'n hanner Llydawr. Ac mae'r cylch yn dal i ehangu...

Ac wedyn dyma holi ffrindiau am bobol y gwyddon nhw amdanyn nhw, ac fe ddaeth enwau Irfan Reis o'r Ffilipinas sy'n gwneud doethuriaeth ar ganeuon gwerin glannau'r Fenai ym Mhrifysgol Bangor; Takeshi Koike, sydd wedi dysgu Cymradg o bell yn Japan; yr Athro Gareth Jones, Bangor, yr ysgolhaig Rwsieg 84 oed ifanc; ac Adrian Harman, cantor Synagog Ryddfrydol Canol Llundain, un o'r Iddewon prin sy'n fodlon cydnabod y Testament Newydd heb sôn am ei ddarllen yn ei Aramaeg/Hebraeg.

Ond mae'r cylch cydnabod yn ehangach na hynny, hyd yn oed. Holi Sión Aled Owen, a dyma gysylltu gyda Lisa MacDonald, siaradwraig Gaeleg yr Alban; a thrwy'r gantores o Gaernarfon, Sera Zyborska (Owen gynt), y daeth y Bwyles, Agnes Agneszki Syzyzadoaka, yn rhan o'r prosiect; cyn i Gwilym Roberts, Pen-y-groes, sydd wedi gwneud cymaint o waith dyngarol yn Bosnia a dwyrain Ewrop, fy rhoi mewn cysylltiad ä Dvadok Ljubas, yn Sarajevo - siaradwr Bosneg/Croateg a Serbeg. A dyma Guto Harri yn ei ôl, yn sôn fel y mae ei fab, Callum, yn rhugl yn Mandarin ac wedi ennill ysgoloriaeth i astudio'r iaith yng Nghaergrawnt, a dyna ei ffrind, Yang Yi, yn dod yn rhan o'r prosiect.

Ond efallai mai'r cysylltiad mwya' pwerus ohonyn nhw, o'm rhan i, oedd cael Odette Dioos, wyres un o'r ffoaduriaid Belgaidd, a dreuliodd bum mlynedd yn llochesu ym Mhen-y-groes yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, i recordio'r fersiwn Fflemeg. Mae hi mor frwd i gynnal y cysylltiad o'i chartref yn Begijnendijk, tref 25 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Frwsel.

Byd bach? Ydi. Ac mae rhannu ewyllys da mor hawdd ag ymledu feirws - os mai dyna sut fyd ydan ni eisiau byw ynddo fo.

# YR ORSAF

**Dros yr wythnosau diwethaf mae'r Orsaf a'r staff sy'n gweithio yno wedi gorfod addasu a newid eu gwaith mewn ymateb i'r sefyllfa rydym ynddi ar hyn o bryd. Pan gyhoeddwyd bod rhaid i leoliadau cyhoeddus gau, roedd rhaid i'r caffi gau ei ddrysau am y tro a dod a digwyddiadau cymdeithasol i stop.**

Felly, o'r diwrnod hwnnw ymlaen, sefydlodd y tîm o staff (Greta, Elliw a Daniel) y Grŵp Cefnogi Penygroes er mwyn helpu'r gymuned gyda phethau fel nôl siopa a phresgripsiwn ac yn y blaen. Dangoswyd llawer o ddiddordeb gan bobl Penygroes i wirfoddoli i helpu gyda'r grŵp a diolch byth amdanynt.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r staff wedi bod yn gweithio o adref ac yn cysylltu'n aml gyda'i gilydd dros alwadau fideo er mwyn trafod a rhannu syniadau.

Mae gwaith Greta ac Elliw yn cynnwys derbyn galwadau gan unrhyw un sydd angen cymorth gyda thasgau gan nad ydynt mewn sefyllfa i'w gwneud eu hunain. Ar ôl derbyn yr alwad maent yn mynd ati i gysylltu ag un o'r gwirfoddolwyr i helpu gyda'r dasg. Mae parodrwydd y gwirfoddolwyr i helpu wedi bod yn wych.

Er mwyn sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr yn diogelu eu hunain ac eraill, creodd y staff becynnau addas ar eu cyfer, yn cynnwys menig tafladwy, bathodyn gwirfoddoli a chanllawiau i'w dilyn.

Mae Daniel wedi bod yn brysur yn gweithio ar brosiectau digidol gan gynnwys casglu clipiau fideo gan bobl ifanc y Dyffryn yn portreadu eu bywydau ar hyn o bryd ac wedi bod mewn cysylltiad â mudiadau cymunedol tebyg i ni lawr yn Ne Cymru.

Mae'r Grŵp Cefnogi wedi profi bod cymuned Penygroes a Dyffryn Nantlle yn un cryf a chadarn ac mae'n amlwg bod pobl eisiau cefnogi ei gilydd mewn amseroedd anodd.

Os ydych chi angen cymorth gyda rhywbeth fel siopa bwyd neu nôl presgripsiwn, yna cysylltwch hefo ni unrhyw dro rhwng 9 a 5, Dydd Llun i Ddydd Gwener i gael cymorth am ddim.

Cyswllt yn y bore: **Elliw- 07529 222670 / elliw@yrorsaf.cymru**
Cyswllt yn y prynhawn: **Greta- 07410 982467 / greta@yrorsaf.cymru**

# newyddion pentref

## LLANLLYFNI

Heulwen Jones, 4 Glan Aber 01286 880344 • Mrs Hefina Roberts, Gwynfa 01286 881139

**Penblwyddi** Penblwydd hapus Dafydd Edwards, Angorfa, oedd yn dathlu ei 70 ym mis Mai.
Dathlu oedd hanes Mari Lynn Morris, y Ffort, hefyd. Penblwydd hapus yn 30 Mari
**Llongyfarchiadau** i Elwyn a Gail Parry, Ty'n Llan, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, i blentyn bach Kevin a'i bartner.
**Gwglbocs** Wel mi ddaru pawb fwynhau rhaglen S4C efo Ken Huws yn gwneud ei orau i ddygymod efo'r Cloi Mawr. Rhaglen arbennig, a bonus oedd cael mwynhau barddoniaeth Christine ac ymddangosiad Alma a Meic. Da iawn wir.
**Clapio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal** Mae pawb yn ffyddlon iawn i'r clapio bob nos Iau, ond mae'n rhaid diolch i Laurina Hughes am ganu cloch yr Eglwys bob wythnos ers y cychwyn. Diolch Laurina.
**Ysgol Llanllyfni** Er bod yr adeilad wedi cau, mae'r athrawon wedi bod yn brysur yn rhannu gwaith a gwybodaeth ar y we efo'r plant a rhieni. Diolch yn fawr iawn iddynt am yr holl waith. Llongyfarchiadau i Miss Glesni a Gethin Fôn Williams ar enedigaeth eu mab, Llewyn ap Gethin.

## Y BONTNEWYDD

Diddordeb mewn hel newyddion y Bont? Cysylltwch efo un o'r golygyddion.

**Gwellhad buan** Da yw clywed fod Bethan Roberts, 26 Glanrafon yn gwella bob dydd a Mary Lees, 30 Glanrafon. Y ddwy wedi bod yn wael yn ddiweddar.
**Cydymdeimlad** Cydymdeimlwn â Delyth Humphries, Stad y Bryn a'i brawd Ian Humphreys Llwyn Beuno ar golli eu cyfnither Jane Eryl Jones MBE. Cyn Uwch nyrs yn Ysbyty Eryri, Caernarfon a fu farw ar Ebrill 21 yn 73 mlwydd oed yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg a oedd yn byw yn Elgar, 30 Crystal Wood Drive, Meisgyn ger Caerdydd. Bu'n byw am flynyddoedd yn Ffrwd Cae Du a chyn hynny yn rhif 1 Glanrafon. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i gŵr Gareth a'i merch Sian Llywelyn a'i gŵr Nick a'i ŵyr Geraint.
Cydymdeimlwn hefyd â Dylan Hughes a Catherine a'r teul 15 Glanrafon ar golli tad Dylan sef Derek Hughes (Derek Teiars) yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn hefyd â John Howard Hughes brawd Derek ac ewythr i Dylan. Bu John a'i wraig Gwenno yn byw ym Montnewydd am flynyddoedd lawer.
**Profedigaethau** Yn dawel yng nghwmni ei deulu yn ei gartref 36 Y Bryn, bu farw John Idris Hughes yn 85 mlwydd oed. Priod annwyl Eirian a thad tyner i Alwyn John a Wendy a Hefin Wyn ac Alison a thaid arbennig Graham Rees a Scott Alexander a brawd cariadus i Dennis a'i wraig Carole. Bu'r angladd yn breifat oherwydd y cyfyngiadau presennol yn Alosgfa Bangor ar Ebrill 28. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ac Eirian a'r teulu oll yn eu galar.
Yna ar Fai 1 yn dawel yng Nghartref Bryn Seiont Newydd, Caernarfon yn 87 mlwydd oed, bu farw Helen Gough Philips. Priod y diweddar Eric Philips, Llwyn Beuno ac annwyl chwaer Idris a'r ddiweddar John a Catrin, chwaer yng nghyfraith Amy, Glenys, Elwyn a Mureen a modryb hoff Nicola, Dion, Bethan, Stephen a Shaun a hen fodryb a chyfnither dyner. Bu ei hangladd yn breifat yn Amlosgfa Bangor ar Fai 12. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu galar.
Yna ar Fai 10 bu farw Robert Gwyndaf Williams (Gwyndaf), yn dawel yng Nghartref Bryn Seiont Newydd ac o 16 Llwyn Beuno yn 80 oed. Priod annwyl i Maureen a thad a thad yng nghyfraith annwyl i Steven a Lisa, Brenda a Clive, taid i Cristopher, Gavin, Charlotte, Keryl ac Elen a brawd Gerald, Terry a'r diweddar Donald. Bu'r angladd yn breifat o dan yr amgylchiadau presennol. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu galar.

## Y GROESLON

elliwhafpritchard@yahoo.com

**Yn ystod y cyfnod yma**, braf iawn yw gweld fod ysbryd cymunedol yr ardal yn parhau. Diolch enfawr i bawb fu yn rhan o drefnu ein arwydd o ddiolch fel pentref i'r holl weithwyr allweddol sydd yn parhau i'n cadw'n saff.
Diolch hefyd am y pecynnau bach sydd yn cael eu dosbarthu i aelodau hŷn y pentref, yn cynnwys rhai hanfodion, yn ogystal ag ychydig o ddanteithion, gan ddiolch yn arbennig i blant y pentref sydd yn brysur yn creu llond trol o gardiau a lluniau o gyd-fynd gyda'r pecynnau.
**Bingo!** Cynhaliwyd noson lwyddiannus arall o "Bingo Stepan Drws Cae Sarn" yn ddiweddar gyda £251 ychwanegol wedi ei hel i elusen GIG *Awyr Las - The North Wales NHS Charity* ar ben y £200 o'r noson gyntaf, yn ogystal a £515 am dorri gwallt Eluned Jones. Y cyfanswm erbyn hyn felly yn £966! Da iawn pawb!
**Dymunwn** ymddeoliad hapus i Alun Jones, Hafan, a Nerys Evans, Tyddyn Dafydd. Mwynhewch yr hamddena!
**Llongyfarchiadau** i Emily Birch, Sŵn y Gwynt oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar 7 Mai.
**Llongyfarchiadau** calonnog i Lea Glyn Jones, Bryn Hyfryd, merch Iolo a Sian, ar ddod i'r brig yng nghystadleuaeth ysgrifennu stori fer ar y thema 'Ynys' a gynhaliwyd gan Hunaniaith fis diwethaf. Bu i 31 ymgeisio, gyda Lea yn derbyn canmoliaeth uchel iawn gan y beirniad Bethan Gwanas. Mae modd gwrando ar Tudur Owen yn darllen y stori fuddugol ar safle YouTube Hunaniaith Gwynedd. Da iawn ti Lea, a dalier ati i ysgrifennu!
**Llongyfarchiadau** i Mary Davies, Cefn Hendre, ar ennill hamper yng nghystadleuaeth Prynhawn Da. Mwynhewch.
**CLWB 200 Neuadd Groeslon** Gan ni all ein casglwyr alw i gasglu taliadau aelodaeth'r clwb 200, tybed a oes modd i'r rhai sydd heb dalu hyd yma wneud hyn trwy'r Banc? Y newyddion da i'r rhai ohonoch sydd heb dalu eto ydi ein bod am eich gadael o fewn y *'draw'* misol. Bydd y sefyllfa yma'n parhau am ychydig fisoedd nes bydd y casglwyr yn gallu ail gychwyn a chyfeirir unrhyw enillion a ddaw i chi at daliadau ddyledus. Gan ni wyddom pa mor hir fydd effaith llym y firws yn pwyso arnom fel gymdeithas, rhaid tybio ar yr adeg yma na all ein casglwyr ymweld ag aelodau'r Clwb 200 cyn mis Gorffennaf, fan gynta. Gan hynny, yr hyn a all hwyluso petha'n sylweddol yw pe byddech cystal â cwblhau eich taliadau ar y wê a rhoi £6 am bob rhif o fewn y *'draw'* i Neuadd Bentref Y Groeslon Clwb 200, sort code 401602, Cyfrif Banc 91742736 a rhoi llinell cyntaf y cyfeiriad cartref ble mae gofyn am *'reference'*. Ar ôl gwneud taliad ar y wê, a fyddech cystal ag e bostio David ar davidcdavies@btinternet.com i'w hysbysu am y taliad. **Neu gellir ei ffonio ar 831318 pe byddech angen ffurflen Mandad Banc i'w lenwi.** Diolch am eich cefnogaeth i'r Neuadd, sydd yma er budd y gymuned i gyd. Tra fo hyn yn amser diflas iawn gyda cymaint o bethau yn mynd â'ch sylw fe fyddem yn gwerthfawrogi yn fawr eich cydweithrediad. Cadwch yn saff!

## BRYNAERAU

**Llongyfarchiadau** i Elin Mirain ac Alan Roberts, Y Ffôr ar enedigaeth Guto Harri ar 22 Ebrill. Newyddion da!

# newyddion pentref

## N E B O a N A S A R E T H

OPHuws, Bryn Gwyn, Nasareth • 01286 881176 e-bost ohuws@toucansurf.com

**Lle mae hwn?**




Lleoliad llun mis Mai oedd ffenest yr Ystafell Gymuned.
Lleoliad Mis Ebrill ger Graianfryn
Ond llun o beth yw hwn mis yma?

**Pant -y- Gog** Mae Ebrill a Mai yn gyfnod i groesawu'r ymwelwyr o dramor i'n gwlad.
Sôn ydan ni am y Wennol a'r Gog. Mae rhyw lawenydd wrth eu croesawu gan eu bod yn cynnig gobaith am ddyfodiad yr haf unwaith eto, gyda phawb am y gorau i fod y cyntaf i weld y Wennol a chlywed y Gog.
Un lleoliad ble mae'r Gog yn canu yn gyson, ac wedi canu ers blynyddoedd, yw Pant-y-Gog Nebo. Mae enw'r tyddyn yn brawf o hynny, gyda nifer o bobol yn dod o bell ac agos i'w glywed pob blwyddyn.
Ar gyffordd Tan-y-Rhiw mae lộn Pant-y-Gog, sy'n arwain at lyn Dulyn ac ar waelod allt y mast ar y dde mae tyddyn Pant-y-Gog, bellach yn adfail, ac yn gyddiedig tu ol i'r coed.
Mae'r rhaid bod Gogau wedi dod i ganu ger y fan yma ers blynyddoedd maith, gan mae dyma'r enw gwreiddiol ar y lleoliad ers cyn cof.
Dyma ble ganwyd Morus Jones Bryn Gro yn 1936, yn fab i Griffith a Sera Jones, ac mae ganddo ei atgofion am y lle.
'Roedd ei dad Griffith yn ofalwr ar lyn Dulyn yn ogystal â ffermio'r 50 erw o dir Pant-y-Gog, ac yn godro 13 o wartheg. Mae'r beudy gyferbyn a'r tŷ hefyd yn adfeilion erbyn heddiw.
Pan symudodd y teulu i Bryn Ychain i fyw (Ty'n Mynydd heddiw) y nhw oedd yr olaf i fyw ym Mhant -y-Gog, ac fe aeth yn adfail yn dilyn hynny.
Pob blwyddyn fel bu lwc, mae'r Gog yn dal i ymweld â Phant-y-Gog wrth iddo ddilyn hen hen draddodiad wrth ganu CW-CW!
A glywsoch chi o?

**Y Faciwîs - Atgofion Jean Roberts, Pant-y-Ffynnon, Nasareth**
A ninnau wedi cofnodi 75 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn ddiweddar, cawsom ni i gyd ein hatgoffa i beidio anghofio, ond yn anffodus ychydig o bobol sydd yn ddigon hen i gofio bellach.
Mae Jean Roberts, Pant-y-Ffynnon, Nasareth a fydd yn 92 oed fis Hydref eleni, yn un sydd â chof rhyfeddol. 'Roedd hi'n 11 oed yn 1939 ac mae ganddi nifer o atgofion am y cyfnod, yn arbennig dyfodiad y Faciwîs i Nebo a Nasareth. Dyma rai o'i hatgofion:
Cofiai Jean yn iawn am y Faciwîs a ddaeth o ardal Lerpwl i 'fochal rhag y bomiau mewn diogelwch cymharol, gyda theuluoedd Nebo a Nasareth, a'r profiad dirdynnol o'u gweld yn cyrraedd stesion Fangor, gyda phob un â'i label gyda'i fanylion personol arno. Cawsant eu cludo o Fangor i'r ysgolion lleol er mwyn eu dosbarthu i'w cartrefi newydd. Rhyw 12 i 15 o blant ddaeth i Ysgol Nebo i'w dosbarthu.
John Williams, Pant-y-Pistyll (tad Meurig Williams Siop Nebo) oedd yn gyfrifol am sicrhau cartrefi dros dro i'r Faciwîs, a chafodd Mam Jean lythyr ganddo yn holi faint o blant a allai hi gymryd.
Tri o hogiau a ddaeth i Tandrwfwl, cartref Jean. Jack Warner, Harry Ward, ac Albert Waring. Pob un â'i gyfenw yn dechrau efo 'War'.
Yn ôl Jean 'roedd yr hogiau wrth eu bodd yn y wlad a gofynnwyd am hoelion er mwyn eu curo fesul dwy i'r goeden fawr oedd o flaen y tŷ. Yna i fyny â nhw fel mwncwns i ddail y goeden. Meddyliai Jean fod Lerpwl yn lle rhyfedd iawn, gan nad oedd yno goed!
Yn ôl Jean, dyma sut dosbarthwyd gweddill y plant i gartrefi yn Nebo a Nasareth:
**Cae Grasbil**: John Jones, Lionel Bragg, Davy Jones, a Gilbert Brown. **Penffridd:** Alice Ewing. **Nant y Gwyddil**: Teulu Mills, Brenda a Wanda. Bu Wanda yn briod â Robat John Williams, Glan-rhyd, y technegydd dannedd gosod. Bu Wanda yn gweithio fel athrawes ac yn ddiweddarach bu hi'n un o lywodraethwyr Ysgol Nebo. **Bryn Person**: Un Hogyn daeth yma, doedd Jean ddim yn cofio'r enw ar y pryd ond 'roedd ganddo chwaer a sgrifennodd lyfr am gyfnod y rhyfel, a soniodd am ei brawd yn Nebo. **Llys Ifor**: Willie Hume. Un hogan yn **Tan'rallt** dros y ffordd i Lys Ifor. **Clwt y Ffolt**: Jimmy Green. **Tŷ Capel Nebo**: John Jones. **Bryn Llyfnwy**: Arthur Lee, priododd â Jinnie merch Bet Thomas oedd yn coginio yn yr Ysgol, aethant i fyw ym Mhen-y-groes, a magu dwy ferch. **Tŷ Capel Nasareth**: Yma bu teulu Yardley Jones, yn wreiddiol o Lerpwl, ac yn chwech o blant i William ac Annie. Dyma hanes eu plant. 'Roedd **John** yn gartwnydd talentog, ac ar ôl priodi hogan o Drefor aeth i fyw i Ganada, ac yn ôl y sôn 'roedd hefyd yn dipyn o focsiwr pan oedd yn ifanc. Priododd **Jessie** efo perchennog siop yng Nghaernarfon, neb llai na'r enwog 'Johnnie Call again', ond bu hi farw. Priododd **Audrey** efo Tom Compton, Llanllyfni ond bu hi farw'n ifanc. Mae Alan eu mab hefyd yn ddylunydd a chartwnydd talentog. Priododd **Brian** efo Priscilla a buont yn byw yn Byron House ym Mhen-y-groes, bu farw Brian tua thair blynedd yn ôl. Roedd **Olwen** yn gweithio mewn siop bapur newydd Richards ar y Maes yn y dre, hithau hefyd wedi marw. Bu **Tommy** yn gweithio efo'r BBC yn Oxford, yn 92 oed ac yn hen lanc, mae o'n byw yn Banbury.
'Roedd yn gyfnod digon tlawd ar bawb, ac yn ôl y llyfr rashions a gafodd Mam Jean, dim ond ychydig o bopeth oedd ar gael gyda'r cwponau prin:
2 owns o fenyn, 2 owns o de, 2 owns o siwgr, 2 owns o facwn, a pwdr wy a llefrith. A dim ond maint 'chopan' oen o gig oedd i gael ar gyfer un llyfr rashions cyfan. Ond yng nghefn gwlad 'roedd ffermwyr a thyddynwyr yn ffodus i allu cael wyau, menyn, a thatws, ac unrhyw beth arall oedd yn bosib ei dyfu yn y caeau. Hefyd o bosib ambell ddarn o borc neu gig oen answyddogol, a tybed sawl iâr oedd wedi peidio â dodwy ddaru gyrraedd y bwrdd pryd hynny?
'Roedd llyfr arbennig i brynu dillad wrth dorri darnau bach maint stamp post am bob dilledyn. Collodd Jean ei thad yn 1943 a chofiai Jean fynd gyda'i Mam i Siop ddillad Paragon ym Mhen-y-groes, pan ddaru Miss Griffiths a oedd yn gweithio yno adael i Mam Jean gael y dillad am y nifer lleiaf o stampiau.
'Roedd hefyd lyfr rashions i gael petrol, ac 'roedd bod yn berchen ar gerdyn adnabod yn hanfodol (gweler y lluniau).
Er nad oedd Nebo o flaen y gad yn nhermau'r rhyfel, 'roedd yno ysbryd ac ymdrech gymunedol, gyda phawb yn ceisio gwneud eu rhan. 'Roedd Mam Jean yn aelod o'r W.V.S. ('Womens Volunteer Service') ac mae Jean wedi cadw ei bathodyn hyd heddiw. 'Roedd Mrs Thomas Afallon, gwraig Elias Thomas y Prifathro, hefyd yn aelod, gyda'r ddwy athrawes Janet Daisy Jones, a Miss Megan Rowlands yn gymorth, ynghyd ag Annie Roberts Penffridd, mam Gwawrwen Jones, Dolbryn, Llanllyfni erbyn heddiw. 'Roedd Lisi Jones Glangors yn aelod o'r Groes Goch, a gwisgai mewn dillad nyrs. Y cyfeillion hyn oedd yn gyfrifol am ddarparu cinio i'r milwyr a'u teuluoedd pan ddaethant adref am seibiant, neu yn gorffen eu hamser yn y lluoedd.
'Roedd Richard Owen (Dic) Talymaes Bach, wedi bod yn garcharor yn yr Almaen, ac yn ôl yr hanes cafodd ei gam-drin yn o arw. Priododd efo Winnie, 4 Rhos Dulyn. 'Roedd gan Nebo hefyd *'Dad's Army'* neu Hôm Gard, efo Dafydd Roberts, tad Gwawrwen Penffridd yn Lefftenant ar y brigêd.
Mae Jean yn cofio llawer ond buasai'n ddiddorol gwybod faint o blant o Lerpwl arhosodd yn yr ardal i briodi a magu eu plant yn Gymry. Mae'r diweddar Luned Giles yn 'sgwennu yn ddiddorol iawn am ei hatgofion hi ym mhentre' Llanllyfni yn ei llyfr *Gas Masks a Codliver Oil*, llyfr sy'n werth ei ddarllen.
Ni ddaru'r plant a ddaeth i Tandrwfwl, cartref Jean, aros yn hir iawn. Pasiodd Albert arholiad y 11 plus ac aeth i Ysgol Dyffryn Nantlle (Cownti Sgŵl pryd hynny), roedd o'n siarad Cymraeg yn rhugl, ond siarad gormod oedd ei fai, pan fu rhaid i Jean orfod ei helpu i sgwennu *'100 lines'* am siarad yn y dosbarth.
Cafodd tad Jean ddamwain difrifol wrth sythio ar ei gefn ar domen o dywod, a charreg o'r golwg ynddo, a bu am gyfnod mewn ysbyty yn Lerpwl, a bu mam Albert yn galw i ymweld â fo.
Cofiai Jean am un noson gynhyrfus iawn pan glywsom dwrw o gyfeiriad y cwt ieir ganol nos. 'LLWYNOG!' gwaeddodd Victor brawd Jean, a rhuthrodd pawb o'i wely i gyfeiriad y cwt. Tad Jean gyda'i ddwy ffon, Jean yn ei dillad nos, Victor efo pastwn, a'r Faciwîs mewn dychryn. 'Roedd pawb wedi cynhyrfu'n lan, ac yn wir i chi, dyna le 'roedd hen Sïon Blewyn Coch wedi ei ddal yn y trap, ond dim cyn iddo gael y cyfle i ladd pedair iâr a cheiliog.
Wedi blingo'r llwynog anfonwyd ei got i Lundain er mwyn cynhyrchu ffwr i'w wisgo, rhywbeth oedd yn ffasiynol iawn y dyddiau hynny. Mae'r ffwr yn dal i fod mewn wardrob ym Mhant-y-Ffynnon er iddo golli rhywfaint o'i flew ar ôl 75 mlynedd.
Ni ddaeth gair byth ar ôl i'r plant ddychwelyd i Lerpwl o Tandrwfwl ond digwyddodd cyd-ddigwyddiad rhyfedd flynyddoedd yn ddiweddarach pryd gweithiai Jean ym Mhwllheli, wrth iddi hebrwng ffrind at y bws. Cyn dyddiau gwersyll gwyliau Butlins Pwllheli, Glendower oedd y safle, yn wersyll hyfforddi i'r llynges. Aeth tri llongwr heibio, a chlywodd ffrind Jean un yn deud 'Jean.' Dyma droi atynt a dyma fo yn deud "Dach chi ddim yn cofio fi?" Jack Warner oedd y dyn, un o'r bechgyn a fu'n aros yn Nhandrwfwl.
Diolch i Jean am ei hatgofion. Cofiwch anfon pwt i LLEU os oes gennych chi atgofion neu straeon am gyfnod y Faciwîs.

# newyddion pentref

## RHOSTRYFAN

Marika Fusser • 3 Tai Minffordd • 830913 e-bost: post@marikafusser.com

**Llongyfarchiadau** i Owain Ynyr, Arfryn ar gyrraedd y rhestr fer cystadleuaeth Hunaniaith i ysgrifennu stori fer i rai rhwng 11 a 16 oed yn ddiweddar. Da iawn ti a dal ati i 'sgwennu Owain.

**Diolch** i Mari ac Anthony Rogers am fynd ati i drefnu baner ar ran y Pwyllgor Pentref yn diolch i'r holl weithwyr allweddol. 'Dwi'n siŵr y bod pawb yn cytuno ei fod yn edrych yn arbennig iawn.

**Gwirfoddolwyr Rhostryfan a Rhos Isaf** Mae tîm gweithgar o wirfoddolwyr wedi bod yn hynod o brysur yn cefnogi a chynorthwyo'r rheiny sy'n hŷn neu yn fregus neu yn gorfod hunan-ynysu yn Rhostryfan a Rhos Isaf er dechrau'r cyfnod y cyfyngiadau ar symud. Diolch i'r criw bychan yma sydd wedi bod yn trefnu, yn cadw mewn cysylltiad gyda'r rheiny mewn angen, yn siopa ac yn nôl presgripsiwn ar eu rhan. Ddwywaith yr wythnos maen nhw'n dosbarthu archebion bwyd o fecws y Carlton ac yn ddiweddar mi wnaeth gwesty'r Castell, Caernarfon roi cacennau am ddim iddyn nhw eu dosbarthu hefyd. Diolch o galon am eu gwaith.

**Helfa i Blant** Diolch i deulu Bryn Horeb am greu helfa casglu llythrennau ar hyd y llwybr llechi i gadw'r plant a'r oedolion yn ddiddan. O gasglu llythrennau a'i hail-drefnu roedd yn creu'r frawddeg bwysig 'Arhoswch yn Saff'.

**Arwyddion i Godi'r Galon** Mae'n hyfryd gweld cymaint o arwyddion sy'n codi calon rhywun ac yn gwneud inni wenu ar adeg mor anodd. Diolch i chi am eich gwaith celf campus! Dyma ddetholiad ohonynt.

**Teganau** Mae nifer o blant y pentref wedi cael cyfle i glirio eu hen deganau ac ati ac wedi bod yn eu gwerthu er mwyn codi arian i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Da iawn chi blantos.



## PENYGROES

e-bostiwch eich newyddion at papurbro.lleu@googlemail.com neu danfonwch hwy i'r blwch yn Nhai Eryri

**Penblwydd Hapus** i Alun Williams 30 Stryd yr Wyddfa oedd yn dathlu ei benblwydd yn 30 ar 10 Mai, cariad mawr gan Mam, Dad, Dilwyn, Eirianwen, Aled, Tomos a Gwion.

**Profedigaethau** Mae nifer o'r pentref wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Manon Evans, Pant Eithinog wedi iddi golli ei thad Edward Clwyd Lloyd Jones o Gyffylliog. Hefyd anfonwn ein cofion at deulu Edgar Ellis, Cefnfaes Llyn fu farw ar Mai 6 yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu farw Ken Adshead, 20 Trem yr Wyddfa, gŵr Gwyneth a'r ddiweddar Sally. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig a'i blant, Peter a Theresa, Carol a Keith a'i wyres Cara.

Ar Ebrill 29 Ebrill bu farw Gwendoline Mary Davies yng nghartref Plas y Don, Pwllheli o fewn pythefnos o'i chanfed pen-blwydd. Gynt o Hiraethog, Penygroes. Priod y diweddar Sergant Howard Ellis a Frank Davies. Mam dyner Arwyn (cyn brifathro ysgol Nebo) a'i wraig Sian, nain gariadus Einir a Darren ac Owain a Delyth a hen nain annwyl Lydia, Elsi, Elin a Cian.

**Llongyfarchiadau i** Catrin Jane a Gavin, Trem yr Wyddfa ar enedigaeth mab bach, Liam. Hefyd Gethin Fôn Williams a Glesni, Cae'r Egal ar enedigaeth eu mab hwythau, Llewyn ap Gethin. Llongyfarchiadau i taid a nain, Dafydd a Jane, Garreg Wen ac Aled Evans, Llanfor, Y Bala. Ar Ebrill 22 ganed Guto Harri, mab Elin Mirain, Brynaerau gynt ac Alan Roberts y Ffôr. Gor ŵyr i Mona Thomas, Tegfryn, Ffordd Clynnog.

**Penblwydd Llongyfarchiadau mawr i** Alice Roberts, Celynnin, Ffordd Clynnog ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 ar Fai 25.

## LLANDWROG

e-bostiwch eich newyddion at papurbro.lleu@googlemail.com neu danfonwch hwy i'r blwch yn Nhai Eryri

**Llongyfarchiadau** i Genod Llan - Clwb Gwawr Llandwrog, am ennill gwobr Cynnydd Aelodaeth ar draws gogledd Cymru gan ddenu 8 aelod newydd am yr ail flwyddyn yn olynol! Er nad ydi'r clwb wedi cyfarfod ers rhai wythnosau, bydd rhaglen o weithgareddau digidol yn cael eu trefnu'n fuan.




**Fe fyddai** Katie Wyn wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar Fai 24 eleni. I gofio amdani hoffai y teulu rannu y gerdd ysgifenodd Karen Owen yn dilyn ei hangladd bymtheg mlynedd yn ôl.

Â dihareb Llandwrog
yn y gwynt uwch Pant-y-gog,
mi awn i roi'r emynau,
un ac un, mewn bedd a'i gau.
Rhoi'r dôn iach i'r gweryd wnawn,
rhoi i gyfer mor gyfiawn
ei llan hi benillion aeth
yn eiriau gwag o hiraeth.
Down â'r garol a'r moli
i fan hyn ein llwyfan ni;
down, gan gredu'n ganu i gyd,
rywfodd, y daw'r lôr hefyd.
Er hyn, mae'r dyrfa'n unig
dan iau melodïau dig,
y mae'n gwir i amau'n gaeth,
yn Dduw oer o gerddoriaeth.
Karie Wyn ein hemyn oedd,
un fu'n gynulleidfaoedd.
Katie Wyn ein gwyl uniaith,
caniedydd a'i ffydd yn ffaith.
Katie Wyn y weddi wâr,
ond hi'r weddi ddiweddar.
Katie Wyn sy'n 'cau tiwnio
nodyn nawr o'i donau O.

Ar organ ein diddanu
yna daw, rhwng gwyn a du'n
addolgar, bob bar o'i bod
yn addfwyn i'n heisteddfod;
y mae hi'n dwyn amheuon
o lais sål yr eglwys hon.
'Gawn ni gwrdd' yw'r gân i gyd,
a'i choelio hi'n dychwelyd
hyd erwydd plwyf Llandwrog
at y gw^yn ym Mhant-y-gog.
'Wyt ti'n clywed, Waredwr?'
oedd y siars, a'i chrefydd siwr
yn ateb agos-ati
llawn hyder, 'tyner wyt ti'.
Hyd y daith, bu 'Nefol Dad'
yn unawdau'i thraddodiad,
ond yma o hyd y mae O'n
rhoi enaid i'w soprano.
Heddiw, ac yn dragwyddol,
gwnawn ni iddi ganu'n ôl.
Daweled yw ei halaw,
heibio i'r haul a'i gwmwl braw,
cana, a chyffyrdda ei ffydd
ein heneidiau annedwydd.

### Ysgol Llandwrog

Mae'r staff i gyd am ddweud helo wrth holl ddisgyblion yr ysgol ac yn gobeithio fod pawb yn iach ac yn saff. Rydym yn falch o'ch gweld yn rhannu eich gwaith gyda ni ar Google Classroom ar Hwb ac yn gobeithio eich bod yn mwynhau'r amser gyda'ch teuluoedd yn y tywydd da.

Mae hadau berwr a blodau haul wedi eu rhannu i'r disgyblion, felly gobeithio y bydd y tywydd braf yn parhau ac y bydd gennym luniau ohonynt yn tyfu ar gyfer Lleu yn ystod y misoedd nesaf! Pob lwc gyda'r tyfu blant!

# newyddion pentref

## RHOSGADFAN

Ann Thompson,16 Gwelfor • 830226

**Cyfarchion penblwydd** i Betty Williams, 5 Llety a ddathlodd ei phenblwydd yn 96 yn ystod mis Mai, hefyd Dilys Hughes, Bro Cadfan a ddathlodd ei phenblwydd yn 94 mlwydd oed.
**Penblwydd Hapus** i Meurig Williams, yntau wedi dathlu ei benblwydd yn 60 oed. Gobeithio y cewch chi i gyd bartis pan ddaw petha'n well.
Llongyfarchiadau i Catrin Lyn Jones ar ei dyweddïad yn ddiweddar.
**Cydymdeimlwn** â theulu Mrs Betty Pritchard gynt o Rosgadfan, yn dilyn ei marwolaeth yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd â Rhian Griffiths ar golli ei thad yng Nghaernarfon ac Anwen Thomas ar golli ei nai yng Nghaergybi.
**Llongyfarchiadau** i Alan Hughes ar ddod yn daid unwaith eto. Hefyd llongyfarchiadau i Sian Williams, Tre Don ar ddod yn Nain am y tro cyntaf i Rhys Wyn.
Cadwch yn ddiogel bawb!




### Ysgol Rhosgadfan

Mae staff ysgol Rhosgadfan yn brysur bob dydd er gwaethaf y cyfyngiadau a'r ysgol yn agored yn ddyddiol i blant gweithwyr allweddol. Yn ogystal maent yn gosod heriau dyddiol i'r plant sydd adref ac yn cael ymateb da iawn ganddynt! Nid oes dyddiad i blant Gwynedd ddychwelyd i'r ysgol ar hyn o bryd felly mae'n bwysig i chi gyd gadw'n saff ac oes unrhyw broblem cysylltwch a'r Pennaeth Mrs Judith Owen.
Diolch o galon i Mrs Ann Thompson am ei rhodd o luniau i'r ysgol.
Dyma'r plant yn eu hedmygu.
Y plant wrth eu gweithgareddau:







*Dyma Glesni yn dawnsio.*






# efopanad

*Ellen Pierce Jones, Gwern, Saron (01286 831337)*

## Quiche heb Grwst

- **5 wy wedi'u curo**
- **Hanner peint o lefrith**
- **Corbwmpen (courgette) wedi'i gratio a gwasgu'r hylif ohoni**
- **4 sleisen o facwn wedi'i ffrio a'i dorri'n ddarnau**
- **Nionyn mawr wedi'i dorri'n fân**
- **Caws wedi'i gratio**
- **Llond llwy fwrdd o flawd plaen**
- **Llwy fwrdd o olew**
- **Halen a phupur**

Irwch ddysgl fflan 8 neu 9".
Rhowch yr olew mewn sosban a ffriwch y nionyn. Taenwch dros waelod y ddysgl. Ychwanegwch y bacwn a'r corbwmpen. Gallwch amrywio'r cynhwysion – madarch, eog, merllys (asparagus) ayyb. Curwch y llefrith a'r blawd ac ychwanegu'r wyau. Blaswch gyda halen a phupur. Tywalltwch dros gynhwysion y ddysgl.
Taenwch y caws (at eich dant) dros y top.
Rhowch yn y popty ar wres 180C am oddeutu 30 – 40 munud nes wedi setio a brownio'n ysgafn. Gweini gyda salad a thatws newydd.

CEIROPODYDD
Galwadau i'r Cartre
Richard Thomas
SrCh/HPC Cofrestredig
Ffôn symudol
07976 316487
Ffôn cartref
01758 612384

HAFOD LLEU
Gwasanaeth Garddio
Torri gwair a thocio gwrychoedd, clirio,chwynnu, walio a.y.y.b

PRIS TEG A GWAITH PROFIADOL
01286 881028
07763 487153

## Atebion Croesair Mai

**Ar Draws:** 1.Codwm 4.Poen 7.Aerwy 8.Loetran 10.Trysori 11.Tyner 12.Cotwm 14.Neges 17.Doler 19.Gwarant 22.Llesmair 23.Dylni 24.Ynys 25. Dalen
**I Lawr:** 1.Corwynt 2.Dwylo 3.Malais 4.Plentyn 5.Eirin 6.Cant 9.Nerys 12.Cudyll 13.Morgais 15.Glaslyn 16.Agored 18.Losin 20.Ardal 21.Trio

Derbyniwyd 20 cynnig. Doedd y sgwâr du coll yn y grid (fy mai i) yn fawr o faen tramgwydd ichi, mae'n debyg. Cafwyd tri ohonoch yn llithro gyda chliwiau gwahanol: 'Llesgair' (22 Ar Draws), 'Cydull' (12 I Lawr) a 'Tair' (21 I Lawr)

Wele enwau'r 17 cywir: Paul Davies, Mena Williams, Mona Thomas (Penygroes) Emrys Griffiths, Awen Roberts (Rhosgadfan) Anwen Roberts, Eluned H.Jones, Bertwyn Ll.Williams, John Bryn (Y Groeslon) Tom Roberts (Rhosmeirch) Rhiannon Jones (Llanfaglan) Dafina Williams (Dolydd) Elen McKean (Bontnewydd) John Roberts (Y Ffôr) Anna Yardley Jones (Penrhyndeudraeth) Eirlys Huws (Bont-goch, Ceredigion) Dilys A.Pritchard-Jones (Abererch)

**Enillydd y £5 yw Dilys A.Pritchard-Jones, Ynys, Abererch LL53 6YP**

# croesairLLEU342


Atebion i
Len Jones • Glan yr Afon • Y Groeslon • Caernarfon • LL54 7TY erbyn 17 Mehefin

Enw . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, rh, th**



### AR DRAWS

8. Wrth gwrs, dyma'r lleoliad sydd â'r nifer uchaf o ymwelwyr (2,5)
9. Ym mlaen ei droed mae'na un i ochel rhagddi (5)
10. Swnio fel mudiad Cymreig ar gyfer gwleidyddion, a hynny'n cyfleu anrhydedd (5)
11. Oedi ar y daith heibio tro Elan ryfeddol (7)
12. Rhaid cyfnewid dy ddwy setl os am weithred y dylid ei chyflawni (9)
14. Y nifer sy'n cael eu cludo yn ôl mewn basged (3)
16. Ar hyn o bryd mae hwn yng nghanol enbydrwydd (3)
18. Er swnio ar y mwyaf yn arallfydol, mae'n annog a chymell (9)
21. Pysgodyn eitha prin – er bod yna naw i gyd, rywsut neu'i gilydd (7)
22. Un 'Mawr' a deyrnasai dros ran helaeth o Gymru yn y 9fed ganrif (5)
23.Y lleoliad oedd bob amser yn yr orsaf lechi (5)
24.Nodweddion, gynt, o ddydd cyntaf yr wythnos (7)

### I LAWR

1. Nifer helaeth o'r Cymry yn dod at ei gilydd i greu cyfeillach – i gofio am aberth, efallai? (8)
2. Afon dlos yn y de …. ynteu un o'n cymdogion dros y dŵr? (6)
3. 'Anelwn ddod am saith,' meddai'r blaenwyr, gan obeithio fod hyn yn briodol (4)
4. Oedd y swyddog llywodraethol gynt yn cario ambarel, tybed? (6)
5. Dewis geneth? Ie, ond mae'r dewis yn gyfyngedig iawn (2,3,3)
6. Yn barod i frodweithio, wedi gweld elfen o ddistryw (6)
7. O'r pedwar enw mae un sydd yn gorfforol ei diben (4)
13. Yr hyn sydd bob amser yn werth ei weld (8)
15. O'r math doniol a digri sydd yn ymhoffi'n arw (8)
17. Cymhlethdod o lwybrau, efallai (6)
19. Fel y stad ddedwydd o fod yn adnabod lonydd (6)
20. Oren da ofnadwy sydd yn datgelu mesur ei blynyddoedd (6)
21. Tasg ddryslyd yw cael hon i ufuddhau i'r chwiban (4)
22. Amser yn dangos ei ôl ar un o'r mwynau (4)

# Ysgol Dyffryn Nantlle

## Cystadleuaeth Stori Fer Hunaniaith ar y testun ‘Ynys’

Llongyfarchiadau fil i Lea Jones Blwyddyn 10 am ddod i frig y gystadleuaeth a gynhaliwyd gan Hunaniaith yn ddiweddar. Y dasg oedd ysgrifennu stori fer ar y testun ‘Ynys’. Y beirniad oedd Bethan Gwanas a chyhoeddwyd canlyniad y gystadleuaeth ar raglen Tudur Owen ar Radio Cymru. Dyma ran o feirniadaeth Bethan Gwanas:

‘Cystadleuaeth ddifyr iawn, a 31 o straeon o safon uchel wedi fy nghyrraedd. Roedden nhw i gyd yn dangos nad oes diffyg dychymyg gan bobl 11-16 oed yng Ngwynedd. Ro’n i wrth fy modd gyda’r syniadau, oedd yn amrywio o fyd ysbrydion ac anturiaethau T Llew Jones-aidd i fydoedd dystopaidd a stori am dechnoleg yn ein llyncu – yn llythrennol.

Darllenais stori Lea Jones. Nefi, mae hon yn gallu sgwennu. Mae ei dawn dweud yn neidio oddi ar y dudalen, a ro’n i wrth fy modd gyda’r syniad: nain yn mynnu bod ei hwyres yn cadw dyddiadur yn ystod y cyfnod Covid-19 (er nad yw’n enwi’r clefyd) felly dyna sydd yma, a chawn hanes brawd a chwaer ymysg byseidiau o blant sy’n gorfod gadael eu rhieni i gael eu hynysu ar Ynys Môn, lle mae milwyr arfog yn gwarchod y bont ac arwydd yn cyhoeddi ‘Croeso Blant Cymru i’r Ynys Ynysu.’ Mae’n stori sy’n dangos dychymyg a gwreiddioldeb ac yn cynnwys sgwennu crefftus, hyderus gyda balans da o ddwysder a hiwmor. Mae Lea yn ddarpar nofelydd yn sicr, ac mi faswn i wrth fy modd yn gweld y stori hon, a nifer o’r straeon eraill, yn cael eu datblygu yn nofelau byrion. Pob lwc!’

Canmolodd Tudur Owen y stori hefyd gan ddweud bod yna awdures yma. Mae’n bosib gwrando ar y stori’n cael ei darllen gan Tudur Owen ar dudalen Facebook Hunaniaith ond dyma’r stori ar gyfer darllenwyr Lleu:

## Ynys

Atebais y ffôn am y pumed gwaith, Nain oedd yno, ei llais cadarn yn crefu arna i i ysgrifennu. Yr un hen bregeth, ‘Cofia di sgwennu am hyn wan ren ogan, mi fydd dy eiriau werth eu ffortiwn mewn blynyddoedd i ddod, mi fydd haneswyr yn crefu am farn hogan ifanc yn byw drwy hyn.’

Druan arni, dydi hi ddim yn deall fod o leiaf 60% o’r boblogaeth efo’r un syniad ac awduron gorau’r wlad ymysg y 60% yna. Annhebygol iawn fod gen i rywbeth gwahanol i’w ddweud a bod hwn am sefyll allan yng nghanol cant a mil o rai eraill. Siawns na ddim fi fydd yr Anne Frank newydd, dim ond ffraeo efo mrawd a mynd a’r ci am dro dwi’n gwneud. Bydd raid i fi ysgrifennu gan fod nain wedi bygwth hacio mewn i nghyfrifiadur os dwi ddim, ond anodd iawn ydi credu hynny efo’r strach mae hi’n ei gael i ddeall ‘Facetime’. Mae hi’n gallu gwneud pethau annisgwyl iawn weithiau felly mae’n well i mi ysgrifennu ‘chydig, y peth dwytha dwi eisiau ydi nain yn gweld fy ‘search history’ a chael heart attack arall.

Er mai dim ond tua chwe wythnos sydd wedi pasio, dwi’n cael trafferth cofio sut oedd bywyd pan oedd bob dim yn iawn, mae’n teimlo fel trio cofio breuddwyd. Damia, dwi ’di methu diweddariad dyddiol yr hen Boris heddiw. Dwi wedi bod yn gwrando arno bob dydd yn chwydu ei eiriau mawrion yn gaddo’r byd i ni. Dim ots faint o siwgr roi di ar gachu, fydd o byth yn jam.

## Duw a’n helpo ni.

Amharodd sŵn bygythiol y cŵn yn cyfarth ar anturiaethau fy meddwl ac yna clywais sŵn y giât. Ro’n i’n meddwl mai Mam neu Dad oedd wedi cyrraedd. ‘Rhyfedd iawn gan mai dim ond 3 o’r gloch yw hi,’ meddyliais. ‘Well i mi fynd lawr i weld os ydi bob dim yn iawn.’

Cerddais lawr y grisiau cyn i ddrws y gegin gael ei daro yn fy ngwynab. Penderfynais aros tu allan i’r drws a chlustfeinio yn lle. Roeddwn i’n iawn, Mam a Dad oedd wedi cyrraedd o’r gwaith yn fuan ac yn cael sgwrs ddwys.

‘Sut ddiawl ydym ni’n mynd i ddweud hyn wrth y ddau, dwi ddim eisiau iddyn nhw fynd, dos i nôl potal o win plîs,’ mynnodd Mam.

‘Does gennym ddim llawer o ddewis, yn enwedig efo asthma Gruffydd,’ meddai Dad.

‘Mae’r holl beth wedi dod allan o nunlla, doedd dim sôn am ffasiwn beth â pob plentyn sydd heb eu heintio yn cael eu hymgilio i Fôn ddoe,’ dywedodd Mam.

‘Dydi’r NHS methu fforddio cael staff yn aros adra am bythefnos ar y tro efo’u plant os ydyn nhw’n cael eu heintio hefyd.’

Roedd yr ysfa i grio yn boddi lleisiau fy rhieni felly cerddais fewn i’r gegin ac o fewn dim cefais fy hel i bacio. Roedd y ddau yn amlwg yn gwybod fy mod wedi clywed bob dim. Gwelais yr anobaith yn llygaid Mam cyn iddi droi ffwrdd â’i llygaid yn llawn dagrau.

Digon o ddillad am chwe mis a dillad i sbario medden nhw. Mae ’na fws yn dod i nôl ni ben bora fory. Dwi ’rioed ’di bod yn un am fynd i Ynys Môn, wel dwi heb fod o gwbl ers y cyfyngiadau. Roedd Mam yn arfer llusgo ni i Waitrose weithiau, dim ond i nôl wyau ac ella ychydig o drîts adeg ’Dolig neu ben-blwydd. Roeddwn i’n casáu mynd i ganol y la di das yn eu dillad Jaeger a’u Range Rovers. Roedd Mam wrth ei bodd efo’r wyau a bob amser yn brolio’r wyau sbesial ’ma i bawb dan haul. Doeddwn i ddim yn deall yr holl ffŷs i fod yn onest. Dwi ddim yn meddwl bydda i a Gruffydd yn hapus ymysg pobol grand Ynys Môn.

Codais bore ’ma gyda chur pen hegar sy’n dŵad ar ôl crio eich hun i gysgu. Roedd y curiadau yn bygwth hollti ’mhen yn ddau. Mae’n ymdrech codi o’r gwely a meddwl be i wisgo mewn ffasiwn sefyllfa. Heblaw am y cur pen, mae pob dim yn teimlo’n rhyfedd a dieithr. Mae fy mrawd yn llowcio ei fowlen o ‘Shreddies’ fel gwylan ar lwgu. Coda ei ben o’i fowlen ar ôl sylwi fy mod yn syllu arno. Yn wahanol i bob diwrnod arall, dim ‘Be ti’n sbïo ar?’ neu ‘Ti isio llun?’ ganddo, dim ond edrych i fyw fy llygaid, y ddau ohonom yn deall ein gilydd am y tro cyntaf erioed.

Cerdda’r pedwar ohonom am y bws, fi, Mam, Dad a Gruffydd, o bosib gyda’n gilydd am y tro olaf. Mae yngan geiriau yn ormod. Wrth gyrraedd y bws mae na ddynes o’r Cyngor yn rhoi masg i ni; mae’n amhosib adnabod neb ar y bws. Mae’n rhaid i mi a mrawd eistedd yn y bedwaredd rhes. Mae 7 rhiant arall ar y pafin yn ffarwelio, pawb yn sefyll 2 metr ar wahân, pawb yn brwydro rhag dangos eu dagrau o anobaith. Alla i ddim edrych ar Mam a Dad. Mae’n rhaid imi wagio fy meddwl yn llwyr, teimlo dim.


Edrychaf drwy’r ffenest, yn brwydro i gynnal gwacter fy meddwl, mae fy mrawd yn llonydd a thawel ar fws am y tro cyntaf erioed.

Wedi cyrraedd ‘bypass’ Felinheli, dyna pryd ddaeth yr ergyd o realiti brwnt ein sefyllfa. Ysais am gysur Mam a Dad ymysg cleisiau duon yr awyr. Roedd tawelwch llethol dros y bws ond am ambell i riddfan y plant bach bob hyn a hyn. Wrth Dafarn Yr Antelope gwelsom y giatiau uchel wedi eu gosod bob ochr i Bont Borth a milwyr efo gynnau yn eu gwarchod. Agorodd y giatiau ar ganiad corn y bws a throi mewn i faes parcio Waitrose ond nid siop statws sydd yma bellach, dim Range Rovers pobl dosbarth canol, ond Land Rovers gwyrdd y Fyddin. Mae arwydd mawr tu allan yn dweud ‘Croeso Blant Cymru i’r Ynys Ynysu’.

Mor braf fyddai cael y cyfle nawr i gerdded i mewn efo Mam i chwilio am ei wyau sbesial.

## Cerddi Blwyddyn 7


Tasg a osodwyd i flwyddyn 7 yn ddiweddar oedd ysgrifennu cerddi am eu teimladau yn ystod y cyfnod dyrys yma. Fel sbardun i’r dasg rhoddwyd copi o gerdd newydd ‘Enfys yn y ffenest’ gan Tudur Dylan Jones iddynt a hefyd roedd angen iddynt wrando ar y gerdd yn cael ei chanu ar YouTube gan Einir Dafydd. Dyma gynnyrch rhai o’r disgyblion:


2020

Mae amser yn mynd yn araf,
Yn gwrando ar yr adar yn yr ardd,
Yn gweld llai or bobl a garaf,
Ond mae'r tawelwch yn creu byd hardd.

Byd o wneud cymwynas,
Byd o ofalu am eraill,
Byd o wneud y pethau bach,
Byd o ofal a chyfeillgarwch.

Er yr holl golledion a straeon trist,
Colli peldroed a Olympics,
Daw eto haul ar fryn,


Corona

Diod pefriog melys oedd corona medd fy nhad
Ond erbyn hyn, afiechyd sy’n lledaenu trwy bob gwlad.
Rhaid cymryd pwyll a cadw’n bell, mwgwd gŵn a menig,
A diolch byth fod gennym ofal iechyd mor arbennig.

Diflas ydy popeth, pawb wedi’i cloi yn ty,
Mae’r feirws yma’n berryg, y pandemig mwyaf fu.
Popeth wedi’w ganslo, priodasau, gwyliau, profion,
Wrth rannu’r hanes nes ymlaen, bydd llawer o atgofion.

Clapio a churo bob nos Iau yn dod o bob cyferiad,
I’n gwasanaeth iechyd gwych, cyfleu ein gwerthfawrogiad.
Mae hyn yn dechrau mynd yn boen, yn ddiflas dweud y gwir,
A gobeithio gawn ni’r drefn yn ol i’r arfer cyn bo hir.

**Fy Heddiw Newydd – Cerdd Anni**

Mae’r awyr yn dawel a glas
Y ffyrdd yn ddi-draffig a neb ar ras
Mae’r adar yn canu a’r blodau wedi deffro
Bob man yn wyrdd a byd natur yn blaguro.

Mae bwrlwm y gwanwyn yn y caea’
A’r ffermwyr yn brysur yn wyna.’
Ond mae ’na rhywbeth dieithr ac od,
Yn mynd ymlaen– mae’n codi syndod.

Mae coridor yr ysgol yn wag,
Dim sŵn llusgo ‘sgidia’ na thaflu bag
Dim chwerthin na giamocs y plant
Na chwaith yr athrawon yn cael rant!

Mae’r stryd yn unig, pob siop a chaffi wedi cau
Dim paned 10 na sgwrs rhwng dau
Na phiciad chwaith i nôl manion bethau
Rhaid bwyta beth bynnag sydd yn y cypyrddau.

**Newid Byd – Cerdd Caio 7Y**

Daeth cwmwl o ansicrwydd,
Fel ton dros Fryn Haul.

Hunan ynysu am’ chydig oedd rhaid,
dim ysgol, dim chwaraeon,
Dim ond cwmni yr r’un rhai,

Bara a llefrith ar stepen ein drws,
a sgwrs fach sydyn
trwy'r ffenest fach dlos,

Ond codi ein calonnau sy’n bwysig yn awr,
Rhoi enfys o hapusrwydd yn y ffenest i bawb.

Daw’r stryd i gyd ynghyd i glapio dwylo,
I ddiolch i’r gweithwyr sy’n gweithio’n ddiflino.

Aros a disgwyl cyn cael gweld Taid a Nain,
Aros a breuddwydio am gael gwisgo ‘number nine’.

Pawb yn amyneddgar a phawb yn gwneud eu rhan,
Aros a disgwyl tan ddaw’r heulwen ar Fryn.

**Amser cofid 19 – cerdd Iwan Jones 7Y**

Teimlo’n drist heb weld fy ffrindiau
Teimlo’n unig hefyd weithiau.
Teimlo’n falch am fod yn iach
Teimlo’n hapus ychydig bach.

Dwi ddim yn hoffi cofid un deg naw
Mae o’n ddigon i godi braw.
Edrych ymlaen mynd yn ôl i’r ysgol
Gormod o amser adref – wedi cael llond bol.

Gobeithion mawr am y dyfodol
Cael bod yn blentyn ac actio’n ffôl.
Croesi bysedd bydd pawb yn ddiogel
Ac ein bod yn cael ein rhyddhau o’r jêl.